Future Skills Wales – Generic Skills Survey 2003

Skills for Care

Arolwg o Gyflogwyr Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003

Sgiliau Gofal a Datblygu SSC

February 2005

Arolwg o Gyflogwyr Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003: Sgiliau Gofal a Datblygu SSC

Adran 1
Cyflwyniad

1.1 Cefndir arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru

Astudiaeth yw Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn cynnwys Arolwg Cyflogwyr ac Arolwg Cartrefi, sy'n archwilio anghenion cyflogwyr yng Nghymru o ran sgiliau, a'r sgiliau a gynigir gan y bobl sy'n byw yno.

Cynhaliodd MORI ac Experian Business Strategies yr Arolwg Cyflogwyr ar ran Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o blith prif lunwyr polisi Cymru, gan gynnwys y Rhwydwaith Sgiliau Busnes.

Diben Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yw cynorthwyo'r Bartneriaeth wrth ddatblygu polisi a chynllunio darpariaeth cyflwyno gwasanaeth. Mae'r Arolwg Cyflogwyr a'r Arolwg Cartrefi yn nodi anghenion sgiliau yn ogystal â'r gofynion am ddysgu a hyfforddi ymhlith cyflogwyr a'r boblogaeth sydd o oed gweithio yng Nghymru. Bydd gwybodaeth ar agweddau a chanfyddiadau yn helpu asiantaethau i symud y rhwystrau i hyfforddi ac yn annog pobl i ddysgu sgiliau newydd er mwyn achub ar y cyfleoedd am swyddi a ddaw i'r amlwg. Bydd y canfyddiadau yn rhoi gwybodaeth hefyd i fusnesau ac unigolion yn eu penderfyniadau wrth recriwtio a chyflogi.

Mae'r arolygon yn canolbwyntio ar sgiliau generig, sef y sgiliau hynny y gellid eu trosglwyddo ar draws grwpiau a sectorau galwedigaethol. Nid yw Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn mynd i'r afael â sgiliau sy'n swydd-benodol, hynny yw maent yn benodol i'r rôl a'r sector y mae unigolyn yn ymwneud â nhw, ond mae hwn yn faes allweddol lle gall y Cynghorau Sgiliau Sector (SSC) gyfoethogi'r wybodaeth am anghenion sgiliau yn eu sector, ac maent yn gwneud hyn.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r Arolwg Cyflogwyr ar gyfer Sgiliau Gofal a Datblygiad, a dalfyrrwyd i 'Sgiliau Gofal' at ddibenion yr adroddiad hwn. Mae felly yn allbwn pwysig, am ei fod yn rhoi gwybod am anghenion a diffygion sgiliau generig penodol y sector yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu â'r sefyllfa yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

1.2 Methodoleg yr arolwg

Cynhaliwyd cyfweliadau â 6,020 o sefydliadau rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2003, a chafwyd cyfanswm o 209 o gyfweliadau â sefydliadau yn y sector Sgiliau Gofal.

Cafodd yr holl sectorau yn yr economi eu cynnwys, a chynhwyswyd cyflogwyr a oedd yn cyflogi o leiaf un person (h.y. lle'r oedd o leiaf 2 berson yn gweithio mewn sefydliad).

Dewiswyd y sampl o Gronfa Ddata Busnes y Tudalennau Melyn. Cyfanswm y nifer darged o gyfweliadau a gyrhaeddwyd oedd 6,000. Dosbarthwyd hwn yn ôl cyfran ac yn ôl sefydliad[1], ar draws 22 Awdurdod Unedol Cymru (UA). Gosodwyd targed isaf o 200 o gyfweliadau ar gyfer pob AU. O fewn yr AU, dewiswyd y sampl yn gymesur yn ôl bandiau nifer y cyflogeion (2-10; 11-24; 25-99; a 100+) a sector y diwydiant (15 Adran y SIC) yn seiliedig ar ddata unedol gan yr Ymholiad Busnes Blynyddol (ABI) 2001. Graddfa'r ymatebion dilys oedd 51%.

Mae'r data wedi'i bwysoli yn ôl yr AU, nifer y cyflogeion a SIC gan ddefnyddio data gan Ymholiad Busnes Blynyddol 2001. Defnyddiwyd dau ddewis pwysoli:

- *Nifer yr unedau busnes*

- *Nifer y cyflogeion*

Dylid nodi nad yw'r data wedi'u samplu na'u pwysoli yn unol â diffiniadau SSC, ac felly dylid trin y canlyniadau â pheth gofal, yn enwedig lle ceir llai o gyfweliadau. Ni chyflwynir unrhyw ganlyniadau yn yr adroddiad hwn lle mae nifer fas y cyfweliadau y seiliwyd y data arnynt yn is na 50.

1.3 Diffinio'r Cyngor Sgiliau Sector

Am fod cod SIC 4-digid ar y data, mae'n bosibl dadansoddi'r data fel y mae'n ffitio i SSC. Mae'r SSC Sgiliau Gofal yn cynnwys cyflogwyr yn y diwydiannau gofal a defnyddiwyd 'ffit orau' y codau SIC i'r sector hwn (SIC 85.3) i ddadansoddi'r data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn

1.4 Maint sampl y sector

Cynhaliwyd cyfanswm o 209 o gyfweliadau â sefydliadau yn y SSC Sgiliau Gofal.

1.5 Arferion Adrodd

Mae'n werth nodi fan hyn bod yr adroddiad yn cynnwys llawer o dablau ac y defnyddiwyd arferion adrodd safonol:

- mae'r holl ganrannau wedi eu talgrynnu i rifau cyfan. Gall hyn olygu yn achlysurol nad yw canrannau yn creu swm o 100 y cant; ac

- mae '*' yn nodi bod y gwerth yn llai na 0.5 y cant;

[1] Seiliwyd ar ddata proffil (nifer yr unedau) Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2001.

- dim ond data sydd â seiliau amhwysol o fwy na 50 a adroddir. Lle mae maint y sail amhwysol rhwng 50 a 100, mae'r testun wedi'i italeiddio a dylid trin y canfyddiadau hyn â pheth gofal ac yn ddangosol yn unig.

1.6 Amlinelliad yr adroddiad

Mae adran ganlynol yr adroddiad yn ystyried y sgiliau cyfredol a thebygol y maent eu hangen ar gyflogwyr (adran 2). Mae adran 3 yn ystyried anawsterau recriwtio a swyddi gwag o achos prinder sgiliau, ac mae adran 4 yn archwilio prinder sgiliau mewnol mewn sefydliadau yn y sector. Mae adran 5 yn archwilio'r hyn y mae'r arolwg yn ei ddweud wrthym am weithgarwch hyfforddi a'r rhwystrau i hyfforddi a gafwyd gan gyflogwyr, ac mae adran 6 yn gorffen â chrynodeb o'r materion allweddol.

Adran 2
Yr Anghenion o ran Sgiliau

2.1 Sgiliau y mae eu hangen nawr ac yn y tair blynedd nesaf

Mae'r arolwg yn gofyn i gyflogwyr ystyried y math o sgiliau y mae eu hangen ar hyn o bryd yn eu sefydliadau ac ar ba lefel y mae angen y sgil hwnnw. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y sector Sgiliau Gofal yn y tabl isod. Fel y mae'r tabl yn ei ddangos, mae ar gyflogwyr yn y sector angen sgiliau Cyfathrebu, Gweithio mewn tîm, a Deall anghenion cwsmer ar y lefelau uchaf.

Tabl 2.1 Lefelau sgil y mae eu hangen ar hyn o bryd

Lefelau'r anghenion sgil ar hyn o bryd						
	Lefel (% y sefydliadau)					
	Dim angen (0)	Sylfaenol (1)	Canolradd (2)	Uchel (3)	Uwch (4)	Ddim yn gwybod
Rhifedd	7	28	31	32	1	0
Llythrennedd	0	20	27	45	8	0
Iaith Gymraeg	41	27	20	10	3	0
Iaith dramor	79	13	7	2	0	0
Datrys problemau	9	14	23	39	14	0
Cyfathrebu	3	8	17	50	22	0
Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau	3	12	22	50	13	1
Sgiliau TG	30	19	32	15	5	0
Y Gallu i ddysgu	3	11	28	49	8	0
Dangos menter	1	13	24	51	11	0
Sgiliau Arweinyddiaeth	7	13	26	42	12	0
Sgiliau rheoli	23	14	21	30	12	1
Trefnu eu dysgu a'u datblygiad eu hunain	11	20	24	38	6	2
Gweithio mewn tîm	4	5	23	55	14	0
Deall anghenion cwsmer	0	5	17	51	27	0
Sgiliau entrepreneuriaeth	30	24	23	13	7	2
Hyblygrwydd	0	12	21	48	19	0
Y sail bwysol = 209 (yr holl sefydliadau)						
Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003						

Gan edrych i'r dyfodol, mae disgwyl y bydd angen ar gyflogwyr lefelau ychydig yn uwch mewn sgiliau Arweinyddiaeth, Gweithio mewn tîm a Hyblygrwydd yn y sector yng Nghymru ymhen tair blynedd. Maent hefyd yn disgwyl cynnydd, o'r sail gymharol isel, yn yr angen am sgiliau TG.

Tabl 2.2 Lefelau yr anghenion sgiliau a ddisgwylir ymhen tair blynedd

Lefelau yr anghenion sgiliau a ddisgwylir ymhen tair blynedd						
	Lefel (% y sefydliadau)					
	Dim angen (0)	Sylfaenol (1)	Canolradd (2)	Uchel (3)	Uwch (4)	Ddim yn gwybod
Rhifedd	6	22	31	35	5	0
Llythrennedd	0	15	28	46	12	0
Iaith Gymraeg	34	21	25	15	4	2
Iaith dramor	72	17	8	2	1	1
Datrys problemau	8	13	22	40	18	0
Cyfathrebu	3	8	14	50	26	0
Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau	3	10	19	50	17	1
Sgiliau TG	19	14	21	35	8	2
Y Gallu i ddysgu	3	7	25	49	15	0
Dangos menter	1	6	23	51	18	0
Sgiliau Arweinyddiaeth	7	11	23	44	16	0
Sgiliau rheoli	22	8	23	28	18	1
Trefnu eu dysgu a'u datblygiad eu hunain	10	12	24	42	12	1
Gweithio mewn tîm	4	3	17	55	22	0
Deall anghenion cwsmer	0	3	15	46	36	0
Sgiliau entrepreneuriaeth	29	18	26	13	11	4
Hyblygrwydd	0	6	21	50	22	0
Y sail bwysol = 209 (yr holl sefydliadau)						
Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003						

Adran 3
Anawsterau Recriwtio a Swyddi Gwag o achos Prinder Sgiliau

Yn yr arolwg, ceir dau fesur o anawsterau recriwtio:

- Swyddi Gwag sy'n anodd eu llenwi - swyddi gwag y mae sefydliadau yn deall eu bod yn 'anodd-eu-llenwi'.
- Swyddi Gwag o achos Prinder Sgiliau - swyddi gwag y mae sefydliadau yn credu eu bod yn anodd eu llenwi am resymau yn ymwneud â sgiliau. Diffinnir yn benodol yn yr arolwg hwn fel 'anodd-eu-llenwi' am 'nad oes gan ymgeiswyr y cymwysterau y mae ar gyflogwyr eu hangen' ac 'nid oes gan ymgeiswyr y profiad perthnasol' ac 'nid oes gan ymgeiswyr y sgiliau perthnasol y mae eu hangen arnom'.

3.1 Nifer y swyddi gwag, y swyddi gwag anodd eu llenwi, a'r swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau

Nododd bron traean (30 y cant) o sefydliadau yn sector SSC Sgiliau Gofal bod o leiaf un swydd wag adeg yr arolwg, nododd 16 y cant o sefydliadau bod ganddynt swyddi gwag anodd eu llenwi a nododd pedwar y cant bod ganddynt swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau, hynny yw, swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi am resymau yn ymwneud â sgiliau.

Mae cyfran y sefydliadau sy'n sôn am swyddi gwag a swyddi anodd eu llenwi yn uwch yn y sector Sgiliau Gofal nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd (lle mae'r ffigyrau yn 22 y cant, ac 14 y cant yn y drefn honno).

Pan y'u hystyrir yn gyfran o'r gyflogaeth, mae'r swyddi gwag yn yr SSC Sgiliau Gofal yn cynrychioli pump y cant o'r gyflogaeth, o gymharu â dau y cant yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Yn yr un modd, mae swyddi gwag anodd eu llenwi yn cynrychioli 1.3 y cant o'r gyflogaeth yn y sector o gymharu ag 1.1 y cant yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Mae'n ymddangos bod y sector yn dioddef yn fwy difrifol gan anawsterau recriwtio o gymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd. Nid oes data tebyg ar gyfer swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau ar gael o ganlyniad i faintioli sail isel.

Tabl 3.1 Mesur y Swyddi Gwag, y swyddi gwag sy'n anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau

	Cymru		SSC Sgiliau Gofal	
	% y sefydliadau sy'n adrodd	*% o gyflogaeth*	*% y sefydliadau sy'n adrodd*	*% o gyflogaeth*
Yr holl swyddi gwag	22	2.0	30	5.0
Y swyddi gwag anodd-eu-llenwi	14	1.1	16	1.3
Y swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau	7	0.5	4	DdB
Y sail amhwysol	**6,020**	**6,020**	**209**	**209**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau

3.2 Y Rhesymau tros swyddi gwag anodd eu llenwi

Roedd cyflogwyr yn y sector yn fwyaf tebygol o nodi diffyg ymgeiswyr, naill ai yn gyffredinol; sy'n fodlon gweithio am bris y farchnad neu fod ganddynt ddiddordeb yn y math hwn o waith, fel achos eu swyddi anodd eu llenwi. Nododd 18 y cant o sefydliadau yn y sector hwn mai dyma oedd y prif achos - yn un faint â Chymru yn ei chyfanrwydd. ***Fodd bynnag, oherwydd y maintioli sail isel y seilir y data hwn arni, dylid trin y data hyn yn ofalus.***

Tabl 3.2 Prif achosion y swyddi gwag anodd-eu-llenwi

Ymateb lluosog	**Sgiliau Gofal** *%*	**Cymru** *%*
Diffyg cymhelliant/agwedd iawn gan yr ymgeiswyr	*6*	9
Diffyg cymwysterau yr ydym ni eu heisiau gan yr ymgeiswyr	*8*	7
Diffyg profiad perthnasol gan yr ymgeiswyr	*11*	13
Diffyg sgiliau perthnasol y mae eu hangen arnom gan yr ymgeiswyr	*7*	20
Cwmni/diwydiant yn methu talu pris y farchnad	*14*	3
Mae'r swydd yn cynnwys gwaith sifft/oriau anghymdeithasol	*14*	8
Diffyg ymgeiswyr/pobl sy'n fodlon gweithio ar raddfa'r farchnad/sydd â diddordeb yn y math hwn o waith	*18*	18
Datblygiad gyrfa gwael/diffyg rhagolygon am yrfa	*0*	1
Diffyg adnoddau i gyflawni recriwtio effeithiol	*5*	1
Nid yw'r bobl â'r sgiliau angenrheidiol eisiau symud i'r ardal hon	*4*	2
Delwedd wael y sector	*3*	1
Lleoliad anghysbell/trafnidiaeth gyhoeddus wael	*3*	3
Gwaith tymhorol	*0*	0
Gormod o gystadleuaeth gan gyflogwyr eraill	*0*	2
Arall	*4*	5
Ddim yn gwybod	*4*	6
Sail amhwysol	***50***	**1019**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau sydd â swyddi gwag annodd eu llenwi

Adran 4
Bylchau o ran Sgiliau Mewnol

4.1 Amlder a natur y bylchau yn y sgiliau

Gofynnwyd i gyflogwyr hefyd am lefel y sgiliau ymysg eu cyflogeion presennol er mwyn cael gwybod pa un ai oedd bwlch rhwng y mathau o sgiliau sydd ganddynt ar hyn o bryd, a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddiwallu amcanion y busnes.

Tra bod swyddi gwag, swyddi anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau yn mesur pa un ai oes anghyfartaledd yn y farchnad lafur allanol, mae bylchau o ran sgiliau yn mesur yr anghyfartaledd **yn** y sefydliad.

Mae cyfran uwch o sefydliadau yn nodi bylchau o ran sgiliau yn y sector SSC Sgiliau Gofal nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Mae tua chwarter, 24 y cant, yn nodi'r fath diffyg cydbwysedd o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 19 y

cant. Yn yr un modd, mae cyflogeion heb y sgiliau gofynnol yn cyfrif am gyfran llawer mwy o gyflogaeth yn y sector o gymharu â ffigyrau Cymru - 12 y cant o gymharu â 5.1 y cant.

Tabl 4.1 Amlder y bylchau o ran sgiliau

	% y sefydliadau sy'n adrodd am fylchau o ran sgiliau	*Bylchau o ran sgiliau fel cyfran o gyflogaeth*	*Sail amhwysol*
Cymru	19	5.1	6,020
Sgiliau Gofal	**24**	**12**	**209**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau

Gofynnwyd i sefydliadau â bylchau o ran sgiliau pa sgiliau generig nad oedd gan eu gweithwyr. Mae'r tabl isod yn dangos atebion y cwestiwn hwn. O ran y sgiliau penodol a ganfuwyd nad oedd staff presennol yn meddu arnynt, roedd cyflogwyr yn fwyaf tueddol o nodi sgiliau TG (31 y cant o'r sefydliadau â bylchau o ran sgiliau), sgiliau Cyfathrebu (23 y cant) a Dangos menter (18 y cant). ***Fodd bynnag, oherwydd y sail fach y seilir y data hwn arni, dylid trin y data hwn yn ofalus.***

Tabl 4.2 Natur y bylchau o ran sgiliau

	Sgiliau Gofal	Cymru
Ymateb lluosog	*%*	*%*
Sgiliau Cyfathrebu	23	21
Dangos Menter	18	12
Sgiliau delio â chwsmeriaid	4	10
Sgiliau datrys problemau	12	11
Gallu i ddysgu	1	10
Sgiliau Rheoli	12	9
Sgiliau Gweithio mewn tîm	5	6
Sgiliau TG	31	24
Sgiliau llythrennedd	7	4
Sgiliau rhifedd	12	6
Sgiliau Iaith dramor	0	3
Sgiliau rhyngbersonol	0	1
Profiad	7	6
Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau	7	9
Sgiliau iaith Gymraeg	8	5
Dim anawsterau sgil penodol	1	2
Ddim yn gwybod	2	2
Sail amhwysol	**52**	**1198**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â bwlch sgiliau

4.2 Effaith y bylchau o ran sgiliau

Yr effaith fwyaf a ganfuwyd o ganlyniad i'r bylchau o ran sgiliau mewnol yn y sector SSC Sgiliau Gofal oedd colli ansawdd mewn darparu gwasanaeth, gyda 22 y cant o'r sefydliadau â bylchau o ran sgiliau yn nodi'r effaith hon. Roedd bron un o bob pump yn dweud bod colli effeithlonrwydd neu mwy o wastraff yn ganlyniad. Roedd llai na 1 y cant yn dweud nad oeddynt yn dioddef unrhyw broblemau penodol o ganlyniad i'w bylchau o ran sgiliau, sy'n awgrymu bod hyd a lled y broblem yn ddifrifol iawn yn y sector hwn. ***Eto, oherwydd y sail fach y seilir y data hwn arni, dylid trin y data hwn yn ofalus.***

Tabl 4.3 Effaith y bylchau o ran sgiliau

	Sgiliau Gofal	**Cymru**
Ymateb lluosog	*%*	*%*
Colli busnes i gystadleuwyr	*4*	15
Colli ansawdd yn y gwasanaeth	*22*	16
Oedi mewn datblygu cynnyrch neu wasanaethau newydd	*1*	7
Anodd bodloni amcanion gwasanaeth cwsmeriaid	*2*	7
Anodd cyflwyno technoleg newydd	*6*	4
Mwy o drosiant staff	*	3
Cyfyngu ar ddatblygiad busnes	*11*	12
Costau gweithredu uwch	*2*	5
Colli effeithlonrwydd/mwy o wastraff	*19*	15
Dim problemau penodol	*	2
Sail amhwysol	***52***	**1198**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â bwlch sgiliau

4.3 Yr hyn a wnaed gan fusnesau fel ymateb i fylchau o ran sgiliau

Roedd cyflogwyr yn y sector yn llawer mwy tebygol o ymateb i fylchau o ran sgiliau drwy ddarparu mwy o hyfforddiant (75 y cant o'r sefydliadau â bylchau o ran sgiliau), o gymharu â'r holl sefydliadau yng Nghymru (56 y cant). ***Eto, oherwydd y sail fach y seilir y data hwn arni, dylid trin y data hwn yn ofalus.***

Tabl 4.4 Yr hyn a wnaed o ganlyniad i fylchau o ran sgiliau

	Sgiliau Gofal	**Cymru**
Ymateb lluosog		*%*
Darparu mwy o hyfforddiant	*75*	56
Newid arferion gwaith	*5*	6
Cynyddu/ehangu rhaglenni i hyfforddeion	*25*	18
Adleoli'r gwaith i rywle arall	*9*	1
Cynyddu recriwtio	*7*	8
Mwy o adolygiadau/cyfarfodydd tîm	*2*	3
Dim gweithredu penodol/ ei adael i'r farchnad	*8*	11
Ddim yn gwybod	*0*	4
Sail amhwysol	***52***	**1198**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â bylchau o ran sgiliau

Adran 5
Yr hyn a wnaed gan Gyflogwyr i Ddatblygu eu Gweithlu

Mae'r adran hon yn ystyried graddfa'r hyfforddiant yn y sector hon a'r rhwystrau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu wrth ddarparu hyfforddiant.

Roedd wythdeg y cant o'r sefydliadau yn y sector SSC Sgiliau Gofal wedi ariannu neu wedi trefnu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn y 12 mis diwethaf, sy'n llawer uwch na'r ffigwr o 53 y cant ar gyfer Cymru gyfan. Mae bron hanner y sefydliadau, 49 y cant, wedi cynyddu eu buddsoddiad mewn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith i gyflogeion yn y tair blynedd diwethaf, o gymharu â 32 y cant o'r holl sefydliadau yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyflogwyr yn y sector yn wynebu mwy o rwystrau i ddarparu hyfforddiant. Mae rhesymau yn ymwneud â chost yn dod i'r amlwg fel rhwystr penodol i hyfforddiant yn y sector Sgiliau Gofal, gyda 45 y cant o sefydliadau yn nodi hwn fel rhwystr o gymharu â 26 y cant yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

Tabl 5.1 Rhwystrau i hyfforddi

Ymateb lluosog	**Cymru** *%*	**Sgiliau Gofal** *%*
Cost hyfforddiant	26	45
Nid oes hyfforddiant ar gael	6	10
Amser y dydd y cynhelir y cyrsiau	8	9
Methu fforddio i staff gael amser i ffwrdd o'r gwaith	31	33
Nid yw'r hyfforddiant yn berthnasol i anghenion y busnes	6	3
Dim rhwystrau	32	20
Sail amhwysol	**6,020**	**209**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau

Gofynnwyd i gyflogwyr hefyd am eu hagwedd tuag at sgiliau a datblygu sgiliau yn eu sefydliadau. Yn y sector Sgiliau Gofal, roedd 86 y cant yn cytuno (yn gryf neu'n tueddu i gytuno) bod gan gyflogeion y sgiliau digonol i ddiwallu anghenion eu busnes Cytunai wythdeg un y cant bod buddsoddi mewn sgiliau wedi esgor ar fuddion i'r busnes, a 96 y cant bod cael gweithlu medrus yn hanfodol i lwyddiant eu busnes. Mae'r darlun yn y sector yn debyg i'r canlyniadau yng Nghymru gyfan (lle'r oedd y ffigurau yn 88 y cant, 77 y cant a 95 y cant yn y drefn honno).

Adran 6
Y Casgliad

Mae gofal cymdeithasol yn sector amrywiol iawn ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i ffyniant economaidd Cymru. Mae dros 5,000 o gyflogwyr a dros 70,000 o staff yn ymwneud â gofal cymdeithasol.

Wrth roi canfyddiadau'r arolwg hwn yn eu cyd-destun, dylid edrych arnynt yng ngolau gwaith blaenorol a wnaed gan y sector gofal cymdeithasol, er enghraifft y Cynllun Rhagolwg Sgiliau a gynhyrchwyd gan Gyngor Gofal Cymru yn 2003. Ceir cysylltiadau i waith sydd ar ei hanner ar hyn o bryd, er enghraifft y Ddogfen Ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004. Bydd y canfyddiadau hefyd yn llywio ac yn cyfrannu at Asesiad Sector gofal cymdeithasol a gynhelir gan ELWa mewn partneriaeth â Chyngor Gofal Cymru, ac yn hynny o beth, bydd yn cyfrannu at y data ar y gweithlu sydd ar gael i'r sector.

Wrth gymryd trosolwg o'r ymchwil, ceir cysondeb â chanfyddiadau astudiaethau eraill, er enghraifft ymrwymiad cyflogwyr i ddysgu a datblygu. Ceir hefyd debygrwydd o ran y sgiliau cyffredinol sydd gan staff, gan gynnwys y Gallu i ddysgu, Hyblygrwydd, ond angen am fwy o sgiliau TG. Gwelodd yr arolwg hefyd ofyniad uwch am sgiliau iaith Gymraeg o gymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd. Nododd pumdeg naw y cant o gyflogwyr yn y sector angen am sgiliau iaith Gymraeg ar ryw lefel ymysg eu gweithlu, o gymharu â 38 y cant ar draws Cymru. Yn benodol, roedd yr angen am sgiliau iaith Gymraeg ar lefel ganolradd ddwywaith gymaint â'r cyfartaledd traws-sector. Mae astudiaethau a gwybodaeth a data eraill ar ddatblygiad gweithlu'r sector hefyd yn nodi bod hwn yn faes uchel ei flaenoriaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel ei gilydd wedi nodi'n gyhoeddus bwysigrwydd sgiliau dwyieithog yn narpariaeth gofal cymdeithasol.

Ar sail canfyddiadau'r ymchwil, ymddengys bod nifer o feysydd lle y gellid ymgymryd â gweithgaredd ymchwil pellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Natur hyfforddiant mewn swydd;
- Y potensial am well cynhyrchedd ar gyfer grwpiau penodol o staff;
- Gwell dealltwriaeth o'r swyddi gwag "anodd eu llenwi" a meysydd o bwysigrwydd strategol ar sail ranbarthol, yn ôl grŵp staff, grŵp defnyddwyr gwasanaeth a phatrwm y gwaith (amser llawn neu ran-amser).